

**Ymgynghoriad 1: cyflwyniad uwchgynllun**

Cwestiynau ac Atebion o 6 Gorffennaf 2021

CWESTIWN		ATEB
1	A yw'r digwyddiad wedi dechrau achos y cyfan dwi'n ei gael yw "Nid yw'r digwyddiad byw wedi dechrau"? Diolch	Dechreuodd y digwyddiad byw am 5.30pm fel y'i hysbysebwyd.
2	Beth yw barn y cynghorydd ar y syniad o ailenwi gorsaf Bae Caerdydd i "Cei'r Fôr-Forwyn", gan fod Bae Caerdydd gryn dipyn yn fwy na'r ardal a wasanaethir gan orsaf Bae Caerdydd, yn benodol yr ardal i'r Gorllewin o afon Taf. Mae'n ymddangos bod hwn yn amser delfrydol i ailfrandio.	Diolch yn fawr am yr awgrym hwn. Byddwn yn ei ystyried a'i drafod gyda chydweithwyr yn y Cyngor a Thrafnidiaeth Cymru.
3	Dywedwch eich bod yn ymgynghori â thrigolion lleol ond rydych yn anwybyddu'r rheiny y mae'r arena yn effeithio fwyaf arnynt felly beth yn union rydych yn ymgynghori arno yma?	Rydym yn awyddus i glywed barn a phryderon preswylwyr am yr uwchgynllun a datblygiad yr arena, os gallwch roi adborth drwy <a href="mailto:info@atlanticwharfcardiff.co.uk">info@atlanticwharfcardiff.co.uk</a> byddai'n ddefnyddiol iawn.
4	Rydych yn sôn am swyddi o hyd ond fe'i sefydlwyd o'r blaen nad yw pobl leol am weithio mewn swyddi yn y diwydiant gwasanaethau... pe baent am wneud hynny pam nad ydynt yn gweithio yn y busnesau niferus sy'n bodoli eisoes?	Ar ôl ei gwblhau, bydd yr uwchgynllun yn darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd sylweddol ar draws ystod eang o sectorau, nid dim ond y diwydiant gwasanaethau. Yn ogystal, bydd yr uwchgynllun yn cymryd rhyw 7 i 8 mlynedd i'w gyflawni a bydd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth ym mhob rhan o'r diwydiant adeiladu.
5	Sut bydd y stadiwm newydd yn gweithio ochr yn ochr â'r cyfleusterau presennol yng Nghaerdydd e.e. arena Motorpoint a Chanolfan Mileniwm Cymru ym Mae Caerdydd? gan sicrhau bod cydweithio ac nid cystadlu. Diolch	Yn yr un modd â chyda'r Arena Motorpoint presennol, bydd Arena newydd Caerdydd yn cynnal amrywiaeth o ddigwyddiadau a pherfformiadau byw sy'n wahanol i'r rhai sy'n cael eu cynnig yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Byddwn yn parhau i gydweithio â'r holl randdeiliaid i ddod â'r ystod ehangaf o ddigwyddiadau i Gaerdydd a sbarduno twf economaidd a diwylliannol yn y farchnad a fydd o fudd i bob lleoliad yn y ddinas.
6	Sut bydd sŵn o'r arena newydd yn cael ei fonitro a'i reoli?	Mae'r arena'n cael ei chynllunio i'r safonau acwstig gorau ac felly ni fydd yn gollwng mwy na sŵn cefndirol arferol canol dinas.
7	A yw gweithredwyr y lleoliad yn bwriadu cynnwys offer recordio a ffrydio er mwyn gallu cynnig profiad byw ac wedi'i ffrydio hybrid?	Bydd y seilwaith angenrheidiol i hwyluso gwasanaethau ffrydio a darlledu i ddarparwyr trydydd parti ar gael yn ôl yr angen.
8	A fydd y seilwaith presennol yn cael ei uwchraddio i ymdopi â'r traffig cynyddol?	Fel rhan o'r cynigion rydym yn ceisio helpu i gyflawni strategaeth Cyngor Caerdydd ar gyfer y Bae sydd wedi'i chyhoeddi yn y Papur Gwyn Trafnidiaeth a'r CDU. Cefnogir y dogfennau hyn hefyd gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn defnyddio model trafndiaeth Trafnidiaeth Cymru i brofi ac ystyried sut beth fydd cyflwr y traffig yn y dyfodol drwy fabwysiadu polisiâu strategol Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd sy'n ystyried cymysgedd o strategaethau hyrwyddo teithio llesol, gwella trafndiaeth gyhoeddus a dyfodol carbon isel yn ogystal â gwella'r rhwydwaith priffyrdd lle bo angen.
9	A fydd cysylltiad trenau neu dramiau'n uniongyrchol o Orsaf Caerdydd Canolog i'r Bae?	Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda Thrafnidiaeth Cymru a Chyngor Caerdydd ac fe'n cynghorir y bydd cynlluniau'r Metro ar gyfer Bae Caerdydd ar waith yn 2024. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cynnwys ym Mhapur Gwyn Trafnidiaeth Cyngor Caerdydd sydd ar gael ar wefan y Cyngor.
10	I ble y bydd Neuadd y Sir yn mynd?	Ar hyn o bryd nid oes cynllun i adleoli Neuadd y Sir wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor. Fodd bynnag, mae'r uwchgynllun yn rhagweld y bydd Neuadd y Sir yn cael ei disodli gan ofod preswyl newydd yn ardal yr uwchgynllun.
11	A fydd unrhyw effaith ar ddŵr y Lanfa sy'n eiddo i ABP?	Nid yw'r uwchgynllun yn effeithio ar ddŵr y Lanfa.
12	I ble y bydd swyddfeydd y Cyngor yn cael eu hadleoli?	Nid oes penderfyniad wedi'i wneud eto ar adleoli Swyddfeydd y Cyngor.
13	A fydd y cynllun hwn yn gadael Cyngor Caerdydd yn talu rhent i'r datblygwyr pan gaiff adeiladau'r Cyngor eu hadnewyddu wrth i hyn gael ei gwblhau?	Mae'r ffocws presennol ar sicrhau caniatâd cynllunio ar gyfer yr Arena a'r Gwesty, ynghyd â'r Uwchgynllun ehangach. Bydd yr Arena a'r Gwesty yn cynhyrchu incwm i'r Cyngor. Nid yw caffael unrhyw le ar gyfer meddiannaeth y Cyngor yn y dyfodol wedi'i ystyried eto.

14	Ydw i'n gywir i feddwl y bydd Heol Hemingway yn cau fel rhan o'r datblygiad? Heol Hemingway yw'r heol sy'n cysylltu Cwr y Dŵr gyda'r Bae, Rhodfa Lloyd George a thu hwnt. Allwch gadarnhau sut yn union y bydd preswylwyr Cwr y Dŵr yn gallu teithio yn eu ceir i'r lleoliadau hyn fel rhan o'r datblygiad newydd os gwelwch yn dda?	Yng ngham cychwynnol y datblygiad, ni fydd Ffordd y Sgwner yn cysylltu â Heol Hemingway. Fodd bynnag, ar ôl cwblhau'r uwchgynllun, bydd Ffordd y Sgwner yn cysylltu unwaith eto â Heol Hemingway. Rydym wrthi'n trafod sut y byddai hyn yn gweithredu yn y dyfodol gyda'r Cyngor, fel yr awdurdod priffyrdd. Bydd y darn o Heol Hemingway sy'n cysylltu â Rhodfa Lloyd George yn cael ei gau'n barhaol.
15	Ydw i'n gywir i feddwl y bydd Heol Hemingway yn cau fel rhan o'r datblygiad? Heol Hemingway yw'r heol sy'n cysylltu Cwr y Dŵr gyda'r Bae, Rhodfa Lloyd George a thu hwnt.  Allwch gadarnhau sut yn union y bydd preswylwyr Cwr y Dŵr yn gallu teithio yn eu ceir i'r lleoliadau hyn fel rhan o'r datblygiad newydd os gwelwch yn dda?	Fel uchod.
16	A yw'r Cyngor yn sicrhau y bydd yr hyb diwylliannol yn cynnwys lleoliad cerddoriaeth llai i gymryd lle'r rhai sydd wedi cau cyn ac yn ystod y pandemig?	Mae union gynnwys yr Hyb Diwylliannol yn dal i gael ei ddatblygu a bydd eich syniad yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r broses hon.
17	Shwmae - allech chi ddweud mwy wrthym am y gwaith o ailddylunio Ffordd y Sgwner os gwelwch yn dda?	Yn y cam cychwynnol, ni fydd Ffordd y Sgwner yn cysylltu â Heol Hemingway, ond pan fydd yr uwchgynllun wedi'i gwblhau bydd yna gysylltiad o Ffordd y Sgwner i Heol Hemingway. Rydym wrthi'n trafod sut y byddai hyn yn gweithredu yn y dyfodol gyda'r Cyngor, fel yr awdurdod priffyrdd.
18	Ydych chi'n credu y bydd marchnad ar gyfer swm y swyddfeydd a siopau a ragwelir? Fydd effaith ar rannau eraill o'r ddinas?	Mae'r uwchgynllun amlinellol yn darparu amrywiaeth o ddefnyddiau adeiladu sy'n ceisio ategu'r ddarpariaeth bresennol yng Nghanol y Ddinas ac ardal Bae Caerdydd. Gan mai Caerdydd yw un o'r dinasoedd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU, mae galw am swyddfeydd masnachol o ansawdd uchel. Bydd y galw hwn hyd yn oed yn fwy ar ôl gwireddu'r cynigion ar gyfer metro a gwell cysylltiadau trafniadaeth. Mae manwerthu (bwyd a diod) yn elfen bwysig o'r uwchgynllun hwn gan y bydd yn darparu ar gyfer yr amrywiaeth o adeiladau hamdden a diwylliannol gan gynnwys digwyddiadau ar raddfa fawr o fewn y brif sgwâr. Fel cyrchfan newydd, mae'n wahanol i unrhyw rannau eraill o Gaerdydd ac felly dylai gael effaith gadarnhaol iawn ar y ddinas a'i phoblogaeth.
19	Pa mor realistig yw'r cynigion trafniadaeth, yn enwedig y cynllun cyswllt metro o ystyried y profiadau diweddar y mae trigolion wedi'u cael o ran gorsaf fysis ganolog Caerdydd a'r ffaith bod sôn wedi bod am y system drafniadaeth drenau/metro integredig ers (o leiaf 10+) o flynyddoedd?	Rydym wedi cynnal trafodaethau gyda Thrafnidiaeth Cymru a Chyngor Caerdydd ac fe'n cynghorir y bydd cynlluniau'r Metro ar gyfer Bae Caerdydd ar waith yn 2024. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cynnwys ym Phapur Gwyn Trafnidiaeth Cyngor Caerdydd sydd ar gael ar wefan y Cyngor.
20	Allwn ni gael / lawrlwytho copi o'r sleidiau hyn os gwelwch yn dda?	Mae sleidiau'r cyflwyniad ar gael i'w gweld ar wefan Glanfa'r Iwerydd Butetown.
21	Mae Cymru eisoes wedi colli allan ar ddigonedd o deithiau Live Nation ar gyfer 1-3,000 o bobl felly mae angen arena arnom. Ond mae Bryste yn ymestyn ei chapasiti i 17,000. Sut gall Live Nation warantu mwy o deithiau Live Nation yng Nghymru?	Live Nation yw prif gynhyrhydd adloniant byw y byd, ac mae'n trefnu miloedd o deithiau a digwyddiadau mewn lleoliadau ledled y DU. Mae mwy o gapasiti yn yr Arena newydd yn cynnig mwy o hyfywedd economaidd i hwyluso marchnad gynyddol o adloniant byw, gan gynnwys cerddoriaeth, sioeau teuluol, chwaraeon a digwyddiadau eraill, i ddod i Gymru.
22	A yw sleidiau'r cyflwyniad hwn ar gael i'w lawrlwytho?	Mae sleidiau'r cyflwyniad ar gael i'w gweld ar wefan Glanfa'r Iwerydd Butetown.
23	Rydych chi wedi colli'r sain	Ymddiheuriadau am golli sain dros dro. Mae'r cyflwyniad cyfan bellach i'w weld ar y wefan
24	Efallai y byddwch am ddechrau'r darn olaf hwnnw eto, allen ni ddim clywed unrhyw beth na'i weld	Ymddiheuriadau am golli sain dros dro. O ystyried yr amserlenni, nid oeddem yn gallu ailgychwyn y cyflwyniad.
25	Sylwaf nad yw'r panel yn arbennig o amrywiol ac yn bendant nad yw'n cynrychioli cymuned Glanfa'r Iwerydd a Butetown. O ganlyniad, ni fydd yn bosibl i'r panel wir wybod na deall safbwyntiau ac anghenion y cymunedau. All y panel ymrwmo i weithio mewn partneriaeth â'r gymuned gan roi elfen o bartneriaeth a phŵer i ni yn y broses ddylunio neu a ydych chi'n mynd i barhau i ymgynghori mewn ffordd symbolaidd yn unig?	Mae'r bartneriaeth sy'n cyflwyno adfywiad Glanfa'r Iwerydd wedi ymrwmo i ymgysylltu'n ystyrion â'r gymuned. Cam cyntaf yr ymgynghoriad yw'r gyfres o weminarau ac maent yn ganlyniad i'r cyfyngiadau Covid presennol. Pan fydd amgylchiadau'n caniatáu, byddwn yn ceisio cynnal digwyddiadau eraill. Yn y cyfamser, hoffem glywed eich barn ar fanylion yr uwchgynllun a datblygiad yr arena. Cysylltwch â ni drwy <a href="mailto:info@atlanticwharfcardsdiff.co.uk">info@atlanticwharfcardsdiff.co.uk</a>

26	Beth am bobl sy'n byw yno? Sut rydym yn teithio'n llesol i'n cartrefi?	Bydd hygyrchedd Bae Caerdydd yn y dyfodol yn newid sylweddol o'r hyn sydd ar gael heddiw gyda darpariaeth y Metro, y Cledrau Croesi a gwelliannau i'r gwasanaeth bysus a rheilffyrdd sy'n cael eu hyrwyddo gan Drafnidiaeth Cymru a Chyngor Caerdydd. Bydd y gwelliannau hyn hefyd yn rhoi mynediad at ardal ehangach y bae.
27	Pa ddarpariaeth trafndiaeth gyhoeddus sydd ar gael i'r Pentref Chwaraeon Rhyngwladol yn y cynllun trafndiaeth?	Bydd hygyrchedd Bae Caerdydd yn y dyfodol yn newid sylweddol o'r hyn sydd ar gael heddiw gyda darpariaeth y Metro, y Cledrau Croesi a gwelliannau i'r gwasanaeth bysus a rheilffyrdd sy'n cael eu hyrwyddo gan Drafnidiaeth Cymru a Chyngor Caerdydd. Bydd y gwelliannau hyn hefyd yn rhoi mynediad at ardal ehangach y bae.
28	Braf gweld cynnydd mewn 'teithio llesol' mewn strydoedd tawel - gan edrych ar gynnydd mewn llygredd o bob math.	Byddwn yn hyrwyddo ac yn annog pobl i beidio â theithio i'r arena mewn car yn unol â pholisïau ac arweiniad a fabwysiadwyd yn genedlaethol a rhai Cyngor Caerdydd. Rydym yn gweithio gyda'r Cyngor i drefnu bysus ychwanegol, bysus gwennol a mwy o opsiynau metro/trenau, a byddwn yn parhau i wneud hynny. Bydd unrhyw un sy'n teithio o ganol y ddinas yn cael ei annog i gerdded neu feicio.
29	Rydym wedi gweld uwchgynllun tebyg o'r blaen ar gyfer y pentref chwaraeon. Roedd hynny'n edrych yn wych ar bapur hefyd ond ni chafodd ei droi'n realiti o bell ffordd (ydych chi'n cofio'r cynllun ar gyfer y ganolfan eira!). Sut y gallwn fod yn hyderus y bydd yr uwchgynllun hwn yn dod yn realiti yn hytrach na dim ond creu arena annibynnol sydd wedi'i ddympio ar garreg drws ein cartrefi?	Ystyrir bod yr Arena a'r Gwesty arfaethedig yn gatalyddion cam cyntaf pwysig yn y gwaith o adfywio Glanfa'r Iwerydd. Mae profiad o ddinasoedd eraill yn dangos bod arenâu newydd yn cael effaith gadarnhaol iawn o ran meithrin adfywiad pellach.
30	Braf gweld set amrywiol o gyflwynwyr o'r ardal.	Mae'r bartneriaeth wedi ymrwymo i amrywiaeth
31	Bydd llawer mwy o draffig yn dod i'r Bae. Ar hyn o bryd mae'r ffyrdd yn llawn tagfeydd yn ystod yr oriau brig. Sut rydych chi'n mynd i gywiro hyn?	Fel rhan o'r cynigion rydym yn ceisio helpu i gyflawni strategaeth Cyngor Caerdydd ar gyfer y Bae sydd wedi'i chyhoeddi yn y Papur Gwyn Trafnidiaeth a'r CDU. Cefnogir y dogfennau hyn hefyd gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn defnyddio model trafndiaeth Trafnidiaeth Cymru i brofi ac ystyried sut beth fydd cyflwr y traffig yn y dyfodol drwy fabwysiadu polisiau strategol Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd sy'n ystyried cymysgedd o strategaethau hyrwyddo teithio llesol, gwella trafndiaeth gyhoeddus a dyfodol carbon isel.
32	Fydd cynllun i gynnal ansawdd yr uwchgynllun gwych hwn yn y tymor hwy? Nid yw datblygiadau wedi'u cynnal a'u cadw'n dda iawn mewn ardaloedd ym Mae Caerdydd dros yr 20 mlynedd diwethaf.	Rydym yn cynnal trafodaethau gyda Chyngor Caerdydd o ran y gwaith cynnal a chadw ar draws yr uwchgynllun cyfan. Ar gyfer yr Arena a'r Gwesty (Cam 1) byddwn yn cyflwyno cynllun rheoli tirwedd a chynnal a chadw fel rhan o'r cais cynllunio.
33	Dyna leoedd i'r Cyngor a chanolfan y Red Dragon - beth am barcio ar y stryd? Pobl yn parcio yn agos at eu cartrefi??	Cynigir darparu maes parcio aml-lawr newydd fel rhan o'r cynigion datblygu. Yn yr un modd mae cynigion i gynyddu capasiti maes parcio Cei'r Fôr-forwyn sydd dim ond taith gerdded fer i ffwrdd. Mae Cyngor Caerdydd wedi mabwysiadu polisiau y mae'n rhaid i ni weithio gyda nhw i gydbwyso'r ddarpariaeth ar y safle ac annog defnydd o safleoedd parcio a theithio, teithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd angen gorfodi gorchmynion rheoleiddio traffig presennol sydd ar waith i ddiogelu trigolion lleol a sicrhau bod y rhwydwaith priffyrdd yn cael ei weithredu. Cyngor Caerdydd sy'n gyfrifol am y gorfodaeth hon a byddwn yn gweithio gyda'r Cyngor i sicrhau bod gorfodaeth addas yn cael ei rhoi ar waith i annog a gorfodi. Bydd hygyrchedd Bae Caerdydd yn y dyfodol yn newid sylweddol o'r hyn sydd ar gael heddiw gyda darpariaeth y Metro, y Cledrau Croesi a gwelliannau i'r gwasanaeth bysus a rheilffyrdd sy'n cael eu hyrwyddo gan Drafnidiaeth Cymru a Chyngor Caerdydd.
34	Ymgynghoriad gwych, diolch. Fydd ymgynghoriad y gallwn ni siarad ynddo?	Mae'r partneriaid wedi ymrwymo i ymgynghori â'r gymuned leol yn bersonol. Roeddem am rannu gwybodaeth gyda chi cyn gynted â phosibl ac yng ngoleuni cyfyngiadau Covid, y gweminarau hyn oedd yr opsiwn gorau hyd nes y gallwn gyfarfod wyneb yn wyneb mewn sesiynau agored. Edrychwn ymlaen at gwrdd â chi a'r gymuned leol ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu codi. Yn y cyfamser byddwn yn croesawu unrhyw adborth y gallwch ei roi i ni nawr. Gallwch gysylltu â ni drwy e-bostio <a href="mailto:info@atlanticwharfcardiff.co.uk">info@atlanticwharfcardiff.co.uk</a>
35	Rwy'n breswlydd.	
36	Oes unrhyw gadwyni cenedlaethol wedi'u trefnu ar gyfer Gwestai a Bwytai?	Bydd y gwesty 182 ystafell wely newydd, a fydd, ynghyd â'r arena, yn ffurfio cam cyntaf y gwaith adfywio, yn disodli'r Travelodge presennol a bydd yn cael ei weithredu gan yr un cwmni. Bydd meddianwyr presennol Canolfan Red Dragon yn cael eu hadleoli i'r Ganolfan Red Dragon newydd a gwell maes o law.
37	Allwch chi gadarnhau y byddaf yn dal i allu gyrru i'r de ar Ffordd y Sgwner ac i Gylchfan Porth y Frenhines/yr A4232 tua'r gogledd/Twneli Butetown os gwelwch yn dda?	Yn y cam cychwynnol, ni fydd Ffordd y Sgwner yn cysylltu â Heol Hemingway, ond pan fydd yr uwchgynllun wedi'i gwblhau bydd yna gysylltiad o Ffordd y Sgwner i Heol Hemingway. Rydym wrthi'n trafod sut y byddai hyn yn gweithredu yn y dyfodol gyda'r Cyngor, fel yr awdurdod priffyrdd.

38	Gan edrych ar y cynllun ar gyfer stadiwm, bydd y gwesty'n cael ei leoli metrau i ffwrdd o eiddo Llys Halliard. Ydy hyn yn gywir?	Fel tîm dylunio rydym wedi bod yn gweithio i sicrhau bod y gwesty yn cael cyn lleied o effaith â phosibl ar eiddo preswyl Llys Halliard. Y pellter rhwng y ddau fydd tua 40m, sy'n debyg i led Stryd y Castell. Byddwn hefyd yn ymestyn Parc y Silwriaid ac yn ychwanegu rhagor o dirlunio i'r ardal hon i wneud y gwesty'n llai amlwg.
39	Allwch chi glywed a gweld mynychwyr y sesiwn hon?	Mae plattform Teams Live yn caniatáu i un cyflwynydd fod yn fyw ar y tro.
40	Pryd rydych chi'n rhagweld y bydd yr arena'n agor ?	Disgwylir i'r Arena agor yng ngwanwyn 2025.
41	A fydd manylion cyswllt y cyflwynwyr ar gael gyda'r sleidiau, diolch	Gellir cysylltu â'r Tîm Datblygu drwy e-bostio <a href="mailto:info@atlanticwharfcardiff.co.uk">info@atlanticwharfcardiff.co.uk</a>
42	Fydd Arena Motorpoint sy'n cael ei rhedeg gan Live Nation yn cau pan fydd yr Arena newydd yn agor?	Rydym yn ystyried pob opsiwn o ran yr Arena Motorpoint bresennol ac nid oes penderfyniad wedi'i wneud ar yr adeg hon.
43	Hefyd beth yw'r hwyraf y bydd y digwyddiadau hyn yn gorffen?	Disgwylir i bob un o'r tri gweminar redeg am awr rhwng 5.30pm a 6.30pm.
44	Rwy'n gwybod bod ymgynoriadau'n anodd (dylai hynny ddweud) ond ni allwn weld a yw'r cwestiynau ac atebion wedi'u paratoi ymlaen llaw neu a ymgynghorir â ni.	Yn anffodus ni all y rhai sy'n gwyllo'r cyflwyniad weld y sesiwn Holi ac Ateb fyw ar blattform Teams Live.
45	Cyn y pandemig, roedd y ciwiau o'r ardal hon i'r brif ffordd gyswllt allan o Gaerdydd a thrwy'r ddinas eisoes yn hir pan oedd cynulleidfaoedd Canolfan Mileniwm Cymru yn gadael - a chapasiti mwyaf y Ganolfan oedd tua 2,000 - sut ar y ddaear y bydd y seilwaith ffyrdd presennol yn ymdopi â'r niferoedd ychwanegol a fydd yn gadael ar ddiwedd noson os oes digwyddiad yn yr arena newydd (yn enwedig os oes sioe brysur yn y Ganolfan hefyd)?	Fel rhan o'r cynigion rydym yn ceisio helpu i gyflawni strategaeth Cyngor Caerdydd ar gyfer y Bae sydd wedi'i chyhoeddi yn y Papur Gwyn Trafnidiaeth a'r CDU. Cefnogir y dogfennau hyn hefyd gan Strategaeth Drafnidiaeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn defnyddio model trafndiaeth Trafnidiaeth Cymru i brofi ac ystyried sut beth fydd cyflwr y traffig yn y dyfodol drwy fabwysiadu polisiâu strategol Llywodraeth Cymru a Chyngor Caerdydd sy'n ystyried cymysgedd o strategaethau hyrwyddo teithio llesol, gwella trafndiaeth gyhoeddus a dyfodol carbon isel yn ogystal â gwella'r rhwydwaith priffyrdd lle bo angen.
46	Fydd y perchnogion tir eraill sy'n ffinio â'r datblygiad yn rhan o'r cam dylunio hwn?	Rydym yn awyddus i glywed barn tirfeddianwyr ar y datblygiad – os oes gennych sylwadau penodol, cysylltwch â ni drwy e-bostio <a href="mailto:info@atlanticwharfcardiff.co.uk">info@atlanticwharfcardiff.co.uk</a>
47	Rwy'n gweld y bydd cam cyntaf y datblygiad yn arwain at golli nifer sylweddol o fannau parcio. Siawns nad yw hyn yn mynd i arwain at gynnydd mewn parcio anystyriol ac anhrefn traffig?	Fel y rhagwelir ar hyn o bryd, bydd yr uwchgynllun ar y cyfan yn darparu tua 2,000 o leoedd parcio mewn meysydd parcio aml-lawr. Bydd y cyntaf o'r rhain yn cael eu cwblhau i gyd-fynd ag agor yr Arena. Bydd y cynllun trafndiaeth hefyd yn ceisio hyrwyddo dulliau amgen o deithio yn ôl ac ymlaen i'r cynllun. Bydd strategaeth gorfodi parcio hefyd yn cael ei rhoi ar waith i annog pobl i beidio â pharcio mewn modd anystyriol. Bydd y bont droed arfaethedig dros dwneli Butetown hefyd yn darparu cyswllt haws â'r maes parcio aml-lawr presennol yn ogystal â'r maes parcio arfaethedig.
48	Gyda chymaint o gartrefi newydd yn cael eu cynnig ac o ystyried pa mor bwysig y mae mannau agored wedi dod i bob un ohonom yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sut bydd y datblygiad yn darparu digon o fannau gwyrdd i gynifer o breswylwyr?	Rydym yn datblygu ein strategaeth tirlunio a fydd yn darparu mannau gwyrdd cysylltiedig fydd yn rhoi cymaint o bwyslais ar yr ardaloedd rhwng yr adeiladau ag ar yr adeiladau eu hunain. Rydym hefyd yn awyddus i'r lleoedd fod ar gyfer trigolion newydd yn ogystal â'r gymuned leol bresennol a bydd eu dyluniad yn annog amrywiaeth o wahanol ddefnyddiau a defnyddwyr mewn unrhyw ddiwrnod arferol. O fod ynghlwm o'r cychwyn cyntaf, gallwn sicrhau bod dyluniad y tirlunio yn rhan annatod o'r cynllun, yn hytrach nag ychwanegiad ar ddiwedd y broses. Mae hon yn broses barhaus a byddwn yn gallu rhannu mwy o fanylion maes o law.
49	Sut rydych chi wedi cyrraedd yr uwchgynllun drafft o ran y math o ddefnyddiau arfaethedig a maint yr adeiladau?	Mae defnyddiau'r uwchgynllun wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd gan ddefnyddio mewnbyn asiantaethau eiddo masnachol a phreswyl arbenigol. Mae'r gwahanol ddefnyddiau a lleoliadau o fewn yr uwchgynllun wedi'u profi yn y farchnad, er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac y gellir eu cyflawni. Mae rhai elfennau (fel y Ganolfan Red Dragon newydd) hefyd wedi'u cynllunio mewn ymateb i friffiau byw gan ddefnyddwyr terfynol.
50	Mae cymaint yn cael ei addo o hyd ond sut y bydd hyn yn wahanol i brosiectau adfywio eraill yn ystod y 40 o flynyddoedd diwethaf?	Mae gan Gaerdydd enw da am gyflawni prosiectau mawr dros y 40 mlynedd diwethaf, gan gynnwys Stadiwm Principality, Stadiwm Dinas Caerdydd, ailddatblygiad Gerddi Sophia, Dewi Sant 2, Bae Caerdydd a Chanolfan Mileniwm Cymru, oll wedi'u hysgogi gan bartneriaeth rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus, model y disgwylwyr y bydd yn parhau i fod yn llwyddiannus gyda'r arena newydd.
51	Mae'r cynlluniau'n cynnwys cannoedd mwy o eiddo preswyl. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw beth yn y cynllun ar gyfer preswylwyr ychwanegol e.e. ysgolion, siopau ac ati. Oes unrhyw gynlluniau i gynnwys y rhain?	Mae buddiannau trigolion lleol yn rhan bwysig o'r datblygiad newydd, sydd â'r bwriad o ddarparu mannau cyhoeddus a chyfleusterau newydd i'r rhai sy'n byw gerllaw. Bydd hyn yn cynnwys cyfleusterau manwerthu a lletygarwch newydd. O ran y gofynion newydd ar gyfer darparu ysgolion, bydd angen ystyried hyn mewn unrhyw ganiatâd cynllunio ar gyfer eiddo preswyl ychwanegol.
52	Nid yw'n ymddangos bod hyn yn ystyried trigolion lleol mewn unrhyw ffordd - pwy sydd wedi gofyn am hyn? Pwy sydd eisiau hyn? Ydy Caerdydd wir yn colli llawer o gigs a sioeau gan nad oes gennym yr arena hon? Beth am y gallu i drigolion lleol fynd i mewn/gadael yn ddiraffferth?	Mae Arena wedi bod yn destun asesiad o'r farchnad ac fe'i pwysleisir o ymateb y farchnad i'r ymarfer caffael. Ystyrir y prosiect yn brosiect adfywio ar gyfer cymunedau lleol a'r ddinas, ac mae'n seiliedig ar ddarparu cyfleusterau a swyddi i'r rhai sy'n byw yn yr ardaloedd cyfagos. Byddem yn annog pob preswlydd lleol i gyfrannu at yr ymarfer ymgynghori. Bydd materion yn ymwneud â mynediad hefyd yn ganolog i unrhyw asesiad cynllunio. Sylwer hefyd mai'r bwriad yw y bydd seilwaith trafndiaeth gyhoeddus a llesol yn cael ei wella'n sylweddol fel rhan o'r gwaith adfywio.

53	Diolch! Ceisiaf anfon crynodeb gan eich bod yn brin o amser	Diolch yn fawr. Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw gwestiynau pellach a byddwn yn ceisio ateb y rhain maes o law.
54	Sut rydych chi'n bwriadu lliniaru'r effaith ar y trigolion lleol tra bo'r gwaith adeiladu ar y gweill?	Rydym yn sylweddoli y gallai'r cyfnod adeiladu amharu ar drigolion lleol, ac fel aelodau o'r Cynllun Adeiladwyr Ystyriol byddwn yn ceisio lleihau hyn drwy gyfathrebu'n glir â thrigolion am weithgareddau ar y safle ac effaith bosibl.
55	Sut yr ymdrinnir â'r problemau presennol sydd gennym gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsedd mewn mannau agored cyhoeddus, h.y. fel na fyddant yn cael eu gwaethygu gan y datblygiad?	Rydym yn ymwybodol o'r mater hwn ac yn ei ystyried yn ein cynllun a fydd yn bodloni'r Canllawiau Diogelu drwy Ddylunio.
56	Gobeithio y bydd sesiwn y gallwn siarad ynddi. Gwaith gwych!	Diolch yn fawr, pan fydd y cyfyngiadau'n caniatáu, bydd y partneriaid yn trefnu digwyddiadau wyneb yn wyneb. Bydd yr union ddyddiadau, amseroedd a lleoliadau yn cael eu hysbysebu maes o law.
57	Diolch. Edrychaf ymlaen at ddarllen atebion i fwy o gwestiynau ar y wefan.	Diolch yn fawr. Byddem yn croesawu unrhyw adborth pellach sydd gennych ar y cynigion drwy <a href="mailto:info@atlanticwharfcards.co.uk">info@atlanticwharfcards.co.uk</a>
58	Oes model ar gael i ni ei weld, fel y soniwyd ychydig fisoedd yn ôl?	Mae'r model yn cael ei gwblhau a gobeithiwn y bydd ar gael i'w weld yn fuan.
59	Rwy'n credu bod y fforwm hwn yn well gan na fyddai rhai pobl am siarad yn bersonol. Edrychaf ymlaen at yr un nesaf yr wythnos nesaf - Diolch	Diolch yn fawr. Byddem yn croesawu unrhyw adborth pellach sydd gennych ar y cynigion drwy <a href="mailto:info@atlanticwharfcards.co.uk">info@atlanticwharfcards.co.uk</a>
60	Diolch	Diolch yn fawr. Byddem yn croesawu unrhyw adborth pellach sydd gennych ar y cynigion drwy <a href="mailto:info@atlanticwharfcards.co.uk">info@atlanticwharfcards.co.uk</a>